ARCHWILIAD CYNLLUN DATBLYGU LLEOL ERYRI

ERYRI LOCAL DEVELOPMENT PLAN EXAMINATION

MATERION A PHETHAU SY'N CODI AR GYFER SESIYNAU GWRANDAWIAD 1, 2 a 3

Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 – 2031

Sesiwn Gwrandawiad 1:

Pennod 2 Y Strategaeth Ddatblygu
Pennod 5 Cymunedau Iach a Chynaliadwy - Darpariaeth Tai

Materion & Phethau sy'n Codi

Pennod 2 Y Strategaeth Ddatblygu

1. **A yw'r Cynllun Diwygiedig wedi'i baratoi yn unol â'r gofynion gweithdrefnol angenrheidiol?**

    a. A yw'r Cynllun Diwygiedig wedi'i baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys y Gymuned?

    b. A yw'r Cynllun wedi bod yn destun asesiadau cadarn: Arfarniad Cynaliadwyedd; Asesiad Amgylcheddol Strategol; ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol?

    c. A yw'r Cynllun wedi cael ei lywio gan ystyriaeth gadarn o ddewisiadau amgen rhesymol?

2. **A yw Gweledigaeth y Cynllun yn parhau i fod yn ddigon uchelgeisiol ac yn benodol yn lleol i ffurfio sail ar gyfer cynllunio hyd 2031? A yw'r diwygiadau arfaethedig i'r CDLl yn ddigon penodol i'r Parc Cenedlaethol?**

    a. A ydyn nhw'n parhau i adlewyrchu'r natur unigryw leol?
    b. A ydynt yn ystyried Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol?
    c. A ydynt yn adlewyrchu pwrpasau a dyletswydd statudol y Parciau Cenedlaethol yn ddigonol?
    d. Polisi Strategol A: Mae maen prawf newydd wedi'i ychwanegu ynglŷn â chynhyrchu Cynlluniau Lle. A ddylai'r cynllun gynnwys esboniad o beth yw Cynlluniau Lle a beth maen nhw wedi'u cynllunio i'w wneud?

3. **Er na chynigir unrhyw newidiadau i'r strategaeth gyffredinol, a yw'n parhau i fod yn strategaeth gydlynol y mae ei bolisïau a'i ddyraniadau'n llifo'n rhesymegol ohonynt ac a yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn?**

    a. A yw graddfa a lleoliad y datblygiad yn parhau i fynd i'r afael â'r materion y mae'r CDLl wedi'u nodi?
    b. A yw lefel y twf o fewn yr hierarchaeth Anheddiad wedi'i gyfiawnhau a'i seilio'n gadarn? A oes digon o gyfiawnhad parhaus ar gyfer categoreiddio aneddiadau?

c. A yw'r targedau a'r amrediad canran a nodir o fewn Polisi C Strategol yn briodol ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn?
d. A yw Strategaeth Ofodol y Cynllun yn cynrychioli dull cynaliadwy o gynllunio, gan gynnwys o ran cludiant, dros gyfnod y Cynllun?
e. A oes digon o gyfiawnhad parhaus i fabwysiadu patrwm tai a dosbarthiad datblygu? A yw cynnwys tai marchnad cyffredinol o fewn Aneddiadau Gwasanaeth ac Aneddiadau Eilaidd yn briodol?

4. A yw Strategaeth y Cynllun yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid? A yw'r Cynllun yn parhau i ddarparu mecanweithiau cadarn ar gyfer Monitro a Gweithredu Strategaeth y Cynllun?

<u>Pennod 5 Cymunedau Iach a Chynaliadwy - Darpariaeth Tai</u>

5. A yw dosbarthiad gofodol tai newydd yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy?

a. A yw dosbarthiad gofodol dyraniadau tai a chyfleoedd ar hap / annisgwyl yn gyson â'r hierarchaeth aneddiadau a nodwyd?

b. A fydd dosbarthiad gofodol twf tai yn lleihau unrhyw gynnydd mewn siwrneiau ceir, yn cynnal cymunedau gwledig ac yn diogelu cyfleusterau a gwasanaethau lleol?

c. A yw dosbarthiad tai yn ddigon perthnasol i'r seilwaith trafnidiaeth bresennol ac arfaethedig, ac yn ymwneud â lle mae pobl yn debygol o weithio, siopa a hamddena?

6. A yw'r ffigur gofyniad tai o 770 (51 uned y flwyddyn) yn briodol ac yn realistig i fodloni anghenion yr Awdurdod dros gyfnod y Cynllun?

a. A yw'r Cynllun Diwygiedig wedi cael ei hysbysu gan asesiad cadarn o'r gofyniad tai, gan roi sylw i Bolisi Cynllunio Cymru?
b. Wrth nodi ffigwr y gofyniad, a roddwyd sylw digonol i amcanestyniadau aelwydydd a phoblogaeth Llywodraeth Cymru, e.e. amcanestyniadau seiliedig ar 2014?
c. A yw'r ffigwr gofyniad wedi'i hysbysu gan asesiad cadarn o'r prif ddylanwadau lleol ar alw am dai, gan gynnwys: cymarebau ffurfio aelwydydd, mudo a throsi cartrefi.
d. A ddylid cynnwys lefel y ddarpariaeth dai, gofynion y Cynllun a rhestr o ddyraniadau tai o fewn Polisi Strategol G?

7. A yw'r cyfrifiadau a'r asesiadau Cyflenwad Tai yn y Cynllun Diwygiedig yn briodol?

a. A yw'r ffigurau a nodir yn y Cynllun wedi eu diweddaru yn ddigonol, yn gywir ac wedi eu gosod allan yn glir?

b. A fydd y Cynllun yn darparu cyflenwad 5 mlynedd o dai ar gyfer cyfnod y Cynllun? A yw'r CDLl yn darparu cyfanswm nifer boddhaol o dir ar gyfer datblygu tai?

8. A ystyriwyd y rhyngberthynas rhwng strategaeth dwf y CDLl a strategaethau awdurdodau cyfagos?

a. Mae derbyniad parhaus yn y Cynllun Diwygiedig y gall aneddiadau y tu allan i'r Parc ond ar y ffin ddarparu tai, cyflogaeth a gwasanaethau eraill i drigolion. A oes digon o dystiolaeth y gall awdurdodau cyfagos fod yn rhan o'r angen a nodwyd?

9. A fydd lefel y twf sy'n cael ei gynnig yn cael ei gyflawni?

a. A yw'r strategaeth yn dibynnu'n ormodol ar ymrwymiadau presennol a rhai ar hap / annisgwyl?
b. A yw amcangyfrif y CDLl o safleoedd ar hap / annisgwyl yn dod yn eu blaen yn realistig?
c. A yw'r nifer amcangyfrifedig o drosiadau yn rhesymol?
d. A yw amcangyfrif y CDLl o gyfraniadau o du safleoedd bach yn rhy uchel?
e. A yw'r cyfraddau cwblhau arfaethedig yn realistig? Beth yw goblygiadau methu â chyflawni'r nifer angenrheidiol o dai?
f. A oes digon o hyblygrwydd i ymdrin â methiant y safleoedd a restrir yn y CDLl i ddod yn eu blaen? A yw'r nifer wrth gefn (40 uned) yn ddigon? A yw'r lwfans llithriad o 5% yn darparu digon o hyblygrwydd pe na bai safleoedd yn dod ymlaen fel y rhagwelir?
g. A yw'r holl ddyraniadau safle ar gael ac a ellir eu cyflawni o fewn yr amserlen a ragwelir?
h. A yw'r dyraniadau'n cael eu cefnogi gan fethodoleg asesu safle cadarn a chynhwysfawr, heb gyfyngiadau datblygu sylweddol ac fe'i dangosir eu bod yn hyfyw yn economaidd ac y gellir eu cyflawni?
i. A yw'r holl ofynion seilwaith wedi cael eu hystyried i sicrhau bod y safleoedd a ddyrennir yn cael eu cyflawni yn amserol, gan gynnwys o ran capasiti / gallu carthffosiaeth?
j. A yw dyrannu cymaint o safleoedd ar gyfer 100% o dai fforddiadwy (11 o 16 o safleoedd tai a ddyrannwyd) yn ddull gweithredu synhwyrol lle gallai fod yna faterion hyfywedd a allai effeithio ar gyflawni?

Tai Fforddiadwy:

10. A yw'r targed tai fforddiadwy o 350 uned yn briodol o ystyried yr angen cyffredinol ar gyfer 2,130 o unedau? Sut mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer y gwahanol fathau o ddeiliadaeth sydd eu hangen i ddiwallu'r angen?

11. A yw'r trothwyon ar gyfer darparu tai fforddiadwy wedi'u nodi yn 'Polisi Strategol G: Tai' yn realistig ac wedi eu seilio ar asesiad hyfywedd credadwy?

a. A ddylai Polisi C Strategol gyfeirio'n benodol at y ffigur diweddaraf ar gyfer angen tai fforddiadwy?

b. A yw'r Cynllun yn cynyddu'r cyfleoedd cyflawni ar gyfer darparu tai fforddiadwy? A yw'r Cynllun yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gwarchod tirlun a darpariaeth tai fforddiadwy?

c. A ellir cyrraedd y targed tai fforddiadwy o 350 o unedau? A ragwelir y bydd yr unedau hynny o fewn aneddiadau haen is a chefn gwlad yn seiliedig ar dystiolaeth gref a chadarn sy'n rhoi ystyriaeth ddigonol i farchnadoedd ac anghenion tai lleol?

d. A yw'r Cynllun yn seiliedig ar asesiad cyfredol o'r ystod lawn o ofynion tai ar draws y Parc Cenedlaethol? A gynhaliwyd asesiad o'r cymysgedd deiliadaeth ofynnol (e.e. tai fforddiadwy, canolradd a thai cymdeithasol)? Sut bydd y Cynllun yn sicrhau cymysgedd gytbwys o fathau o dai, meintiau a deiliadaeth sy'n gysylltiedig ag anghenion yr ardal?

e. A yw'r cyfraniadau tai fforddiadwy y gofynnir amdanynt yn ariannol hyfyw ac yn seiliedig ar fethodolegau a rhagdybiaethau cadarn? Sut mae lefel y cyfraniad wedi rhoi ystyriaeth i gostau adeiladu cynyddol, gan gynnwys y gofynion chwistrellyddion a gyflwynwyd fel rhan o'r Rheoliadau Adeiladu, a chostau cysylltiedig eraill?

f. Sut y caiff cyfraniadau safle eu defnyddio i gyflawni tai fforddiadwy, a pha fecanweithiau sydd ar waith i sicrhau bod y lefelau cyfraniadau a geisir yn realistig ac yn dryloyw?

g. Mae'r tueddiadau yn y gorffennol yn dangos bod safleoedd mwy a'r sydd â chyllid Grant Tai Cymdeithasol (GTC) yn fwy hyfyw. Sut fydd y safleoedd o fewn y Canolfannau Gwasanaethau Lleol, Aneddiadau Gwasanaeth ac Aneddiadau Eilaidd yn cael eu cyflawni? A fydd y nifer angenrheidiol o dai fforddiadwy yn cael eu cyflawni?

h. A yw'r Cynllun yn ddigon clir ar gyflawni a hyfywdra tai fforddiadwy o fewn yr ardaloedd is-farchnad?

i. Mae'n debygol y bydd lleiniau unigol ac addasiadau yn cael eu datblygu gan unigolion preifat (fel y dangosir gan dueddiadau yn y gorffennol). Yn absenoldeb Grantiau Tai Cymdeithasol (GTC) sydd ar gael i ddatblygwyr preifat, a fydd cynlluniau o'r fath yn hyfyw?

j. Pa dystiolaeth sydd yna fod yna gysylltiad agos â darparwyr tai yn y Parc Cenedlaethol?

k. A oes digon o dystiolaeth y gall awdurdodau cyfagos gwrdd â'r angen a nodwyd?

11. A yw'r Cynllun yn darparu sail gadarn ar gyfer gweithredu a monitro'r ddarpariaeth tai?

a. A yw'r Cynllun yn ymgorffori mecanweithiau monitro ac adolygu cadarn a fydd yn galluogi strategaethau tai marchnad agored a thai fforddiadwy i ymateb yn effeithiol i amgylchiadau sy'n newid, megis newid yn amodau'r farchnad?

b. A yw'n cynnwys targedau a cherrig milltir adnabyddadwy clir yn ogystal â sbardunau gweithredu os na fydd y niferoedd yn dod ymlaen fel y rhagwelir?

12. Yr Iaith Gymraeg a Chymunedau

a. A yw'r trothwyon a nodir ym Mholisi 18 yn parhau i fod yn addas at y pwrpas?

b. A fyddai gofyniad am Ddatganiad Cymunedol ac Ieithyddol i gyd-fynd â cheisiadau cynllunio am safleoedd ar hap / annisgwyl yn ddianghenraid o feichus ar gyfer datblygiad sy'n dod o fewn y categori hwn?

Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 - 2031
Sesiwn Gwrandawiad 2:
Pennod 6 Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy - Economi / Cyflogaeth, Twristiaeth a Manwerthu

Materion & Phethau sy'n Codi

1. Economi Wledig Gynaliadwy (Polisi Strategol H)

a. Beth yw canlyniadau disgwyliedig y diwygiadau i Bolisi Strategol H?

b. Cyflwynwyd maen prawf newydd i Bolisi Strategol H sy'n awgrymu, lle mae tir cyflogaeth yn cael ei golli at ddefnydd arall, bydd tir o safon cyfartal neu well ar gael mewn man arall, hyd yn oed os nad yw o fewn ffin y Parc Cenedlaethol. Sut bydd hyn yn gweithio mewn termau ymarferol a pha fecanweithiau fydd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni? A ddylid egluro hyn ymhellach yn y Polisi?

c. A yw dull gweithredu cyffredinol y Cynllun Diwygiedig at dwf cyflogaeth yn gydnaws â lefelau datblygiad preswyl arfaethedig dros gyfnod y Cynllun?

2. Darpariaeth Cyflogaeth a Hyfforddiant Newydd (Polisi Datblygu 19)

a. Yn absenoldeb unrhyw ddyraniadau tir cyflogaeth newydd ar raddfa fach yn y Cynllun Diwygiedig, a fydd y ddibyniaeth barhaus ar ailddefnyddio ac / neu ehangu tir ac adeiladau a ddyrannwyd eisoes neu ddatblygiadau newydd ar safleoedd llai heb eu dyrannu o fewn neu gerllaw trefi neu mae pentrefi yn darparu tir / adeiladau cyflogaeth ddigonol i ddiwallu anghenion ardal y Cynllun?

b. A yw'r Polisi yn rhy gyfyngol, yn enwedig o ran y potensial ar gyfer cyfleoedd datblygu economaidd adeiladu o'r newydd y tu allan i aneddiadau, megis mentrau gwledig ar raddfa fach?

c. A oes gorddibyniaeth ar argaeledd tir a safleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd y tu allan i'r Parc Cenedlaethol i ddiwallu'r angen lleol a nodwyd ar gyfer datblygu cyflogaeth a hyfforddiant?

3. Parth Menter Eryri

a. A oes unrhyw gyfyngiadau a allai gael effaith ar y modd y gellir cyflawni'r safleoedd dros gyfnod y Cynllun?

b. Beth yw'r amserlen ar gyfer cyflawni a ragwelir ac a fu unrhyw drafodaethau gyda darpar fuddsoddwyr a datblygwyr ar y naill safle neu'r llall?

c. Pa oblygiadau fyddai'r Parth Menter yn ei gael ar strategaethau datblygu awdurdodau cyfagos, ac i'r gwrthwyneb?

d. A yw'r polisi yn ddigon hyblyg o ran y math o ddatblygiad a ellid ei gynnwys ar y safle, o ran y defnydd, graddfa a dyluniad adeiladau? Sut bydd y Cynllun yn ymdrin â chynigion ar gyfer datblygiad mawr ar y safle?

e. A oes unrhyw gyfyngiadau seilwaith yn y naill neu'r llall o'r safleoedd a allai effeithio ar gyflenwi a hyfywedd?

f. Beth yw'r goblygiadau llifogydd ar ddyraniad tir ym Maes Awyr Llanbedr? Mae yna wrthwynebiad gan Gyfoeth Naturiol Cymru oherwydd bod yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd yn cadarnhau bod rhannau o'r safle yn anaddas ar gyfer datblygu.

g. A yw ffiniau dyrannu'r ddau safle wedi cael eu llunio'n gywir?

4. Twristiaeth a Hamdden

a. Mae'r cynllun diwygiedig yn cyflwyno testun sy'n cyfeirio at bwysigrwydd twristiaeth antur ac eco dwristiaeth i'r Parc Cenedlaethol. A yw'r Cynllun, trwy Bolisi Strategol I a Pholisïau 21 a 28 Datblygu yn darparu fframwaith priodol ar gyfer ystyried cynigion ar gyfer cyfleusterau twristiaeth a hamdden a llety newydd neu well?

b. A yw'r polisïau yn y Cynllun, gan gynnwys Polisïau 28 a 29 newydd, yn sicrhau cydbwysedd priodol o ddarpariaeth ac ataliad mewn perthynas â datblygiad twristiaeth a hamdden presennol ac arfaethedig, gan gynnwys unrhyw gyfleoedd datblygu mawr posibl?

c. A fydd Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri yn effeithio ar allu'r atyniadau twristiaeth a llety presennol i ehangu a gwella cyfleusterau?

d. Mae'r testun ychwanegol ym Mharagraff 6.34 yn cyfeirio at leoliad datblygiad twristiaeth a hamdden o fewn cefn gwlad agored a'r effaith bosibl a gaiff ar y dirwedd. Sut y caiff hyn ei reoli a'i asesu ac a ddylai hyn gael ei gynnwys o fewn Polisi?

e. A yw'r frawddeg gyntaf ym Mholisi 21 yn darllen yn gywir - "O fewn y Parc Cenedlaethol, bydd y ddarpariaeth o atyniadau twristiaeth presennol yn cael eu diogelu ....

f. Polisïau Datblygu 22 a 23: A fydd y testun ychwanegol ym mharagraff 6.40 a'r polisi yn cael effaith andwyol ar hyfywedd busnes a nifer y twristiaid i'r ardal oherwydd anallu i gynyddu niferoedd sefydlog ar y safle, hyd yn oed os oes gwelliant cyffredinol i'r safle?

g. Paragraff 6.37, Ymddengys bod Polisi Datblygu 28 yn annog ac yn peidio ag annog llety wedi ei adeiladu o'r newydd. A yw'r newidiadau a gyflwynwyd gan y paragraffau ategol a Pholisi 28 sy'n newydd yn glir o ran darparu llety gwasanaeth newydd?

h. Sut y bydd cynigion ar gyfer llety newydd a wasanaethir y tu allan i'r hierarchaeth aneddiadau a enwir yn cael eu hasesu, er enghraifft, ar gynlluniau arallgyfeirio amaethyddol?

i. Mae'r CDLl yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth a hamdden i'r economi. A yw Polisi 29 yn cyfyngu gormod neu a yw'n atal cyfleoedd i ddatblygu cyfleuster a allai fod o fudd i'r economi?

j. A wnaed asesiad digonol o'r galw a'r gofynion am lety gwyliau amgen?

k. A fydd Polisi 29 yn arwain at 'ymagwedd flanced / gyffredinol' a fydd yn atal gallu pob cynnig i gael ei ystyried yn ôl ei rinweddau penodol ei hun? A ddylid gwahaniaethu rhwng gwahanol ardaloedd yn y Parc Cenedlaethol?

5. Manwerthu (Polisi Datblygu 24)

a. A yw'r pellter o 300m a gyflwynwyd gan yr adolygiad arfaethedig yn unol â pholisi cenedlaethol ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn? A yw'r term 'parth clustogi' yn briodol yn y cyd-destun hwn?

b. A yw'r polisi'n glir ar gynigion ar gyfer newid defnydd siopau / unedau gwag i ddefnydd preswyl o fewn aneddiadau eraill nad ydynt wedi'u rhestru o fewn y polisi, yn enwedig tai fforddiadwy, lle mae angen lleol wedi'i brofi?

6. A yw'r Cynllun yn parhau i gynnwys mecanweithiau monitro ac adolygu cadarn a fyddai'n galluogi strategaethau a pholisïau economaidd / cyflogaeth, twristiaeth a manwerthu i ymateb yn effeithiol i amgylchiadau sy'n newid?

Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 - 2031

Sesiwn Gwrandawiad 3:

Penodau 3 a 4 Yr Amgylchedd Naturiol, Diwylliannol a Hanesyddol

Materion & Phethau sy'n Codi

Yr Amgylchedd Naturiol

1. Polisi Strategol D 'Yr Amgylchedd Naturiol':

   a) Er nad oes unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig i'r polisi hwn, a yw'n parhau i gyflawni ei ddiben wrth ddiogelu adnoddau naturiol, bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol?

2. Gwarchodfa Natur Dywyll a Gwarchodfa Biosffer Dyfi (Polisi Datblygu 2):

   a. Mae'r testun ychwanegol o fewn y Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd y dynodiadau hyn yn glir. Fodd bynnag, a ddylai'r Cynllun gydnabod y bydd datblygu mewn rhannau penodol o'r Parc Cenedlaethol yn anochel yn cael effaith ar y dynodiadau hyn?

   b. A fydd dynodi Gwarchodfa Awyr Dywyll yn arwain at 'ddull gweithredu ar ffurf 'blanced' tuag at asesu datblygiadau? Ac a ddylid gwahaniaethu rhwng gwahanol ardaloedd yn y Parc Cenedlaethol?

   c. A yw'r polisïau'n rhoi digon o eglurder ar y ffordd y bydd cynigion datblygu, sy'n debygol o effeithio ar y dynodiadau hyn, yn cael eu hystyried a lle bydd angen mesurau lliniaru a iawndal? A ddylid cynnwys hyn o fewn polisi?

   d. A yw'r Cynllun yn darparu digon o arweiniad i ddatblygwyr / ymgeiswyr ynghylch pa wybodaeth y mae angen iddynt ei ddarparu i gefnogi unrhyw gais cynllunio? A ddylid egluro hyn o fewn Polisi Datblygu 2?

3. Polisi Datblygu 3 'Ynni':

   a. Mae'r newidiadau i'r Cynllun (testun ategol i Bolisi Datblygu 3) yn cydnabod pwysigrwydd cynlluniau gorsafoedd pŵer trydan dŵr / hydro a microgynhyrchu. Er na chynigir unrhyw newidiadau i'r polisi, sut bydd y cynllun yn asesu cynlluniau yn y dyfodol?

   b. Mae'r Cynllun yn cydnabod bod tirwedd y Parc Cenedlaethol yn sensitif i ddatblygiadau tyrbinau gwynt. A yw'r Cynllun yn cydymffurfio â'r Polisi Cenedlaethol mewn perthynas â'r trothwyon ar gyfer gwahanol dechnolegau, ac a ddylai'r Cynllun

ddarparu canllawiau ychwanegol i ddatblygwyr ar natur a graddfa'r cynlluniau ynni adnewyddadwy arfaethedig yn y Parc?

c. Sut y bydd cynigion perthnasol i ffin y Parc Cenedlaethol o fewn yr ACLlau cyfagos yn cael eu hasesu.

4. Mwynau:

   a. A yw'r newidiadau a gynigir i Bolisïau Strategol E1, E2 ac E3 yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol ac yn darparu sylfaen glir ar gyfer delio â datblygiadau ar waddodion agregau neu fwynau wedi eu diogelu, yn ogystal ag asesu cynigion newydd ar gyfer tynnu mwynau yn y Parc Cenedlaethol?

   b. A yw'r Cynllun yn darparu digon o arweiniad i ddatblygwyr / ymgeiswyr ynghylch pa wybodaeth y mae angen iddynt ei ddarparu i gefnogi unrhyw gais cynllunio? A ddylid egluro hyn o fewn y Cynllun?

5. Gwastraff:

   a. A yw Polisi Datblygu 4 yn darparu fframwaith clir ar gyfer asesu ceisiadau ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd?

   b. A yw'r Cynllun yn darparu digon o arweiniad i ddatblygwyr / ymgeiswyr ynghylch pa wybodaeth y mae angen iddynt ei ddarparu i gefnogi unrhyw gais cynllunio? A ddylid egluro hyn o fewn Polisi Datblygu 4?

Yr Amgylchedd Diwylliannol a Hanesyddol

6. Polisi Strategol Ff 'Amgylchedd Hanesyddol':

   a) A yw'r cyfeiriad at Ddarpar Safleoedd Treftadaeth y Byd o fewn y polisi ac ar y map cyfyngiadau yn gynamserol o gofio mai dim ond ar restr amhendant y'i cyflwynir i UNESCO?

   b) Sut y bydd ceisiadau cynllunio yn yr ardaloedd hyn yn cael eu hasesu yn ystod y cyfnod interim hwn?

7. Polisi Datblygu 9 'Addasu a Newid Defnydd Adeiladau Gwledig'

   a) Beth yw ystyr y term 'cynllun arallgyfeirio gwledig'? A ddylai hyn fod yn 'arallgyfeirio amaethyddol' yn unol â Pholisi Datblygu 20 er budd cysondeb? Os felly, a ddylai'r ddau bolisi groesgyfeirio at ei gilydd.

b) A ddylai'r polisi ddarparu eglurhad a chyfiawnhad pellach ar y gofyniad am dalu swm cymudo ar gyfer anheddau'r farchnad agored. A ddylai'r polisi groes gyfeirio at Bolisi Strategol Ch?

8. A yw'r Cynllun yn darparu sail gadarn ar gyfer gweithredu a monitro'r amgylchedd naturiol, diwylliannol a hanesyddol?